# CYNGOR CYMUNED BUAN

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 08 Mehefin, 2023**
**yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**:

Wynne Davies
Catherine Hughes
Tesni Jones
Einir Lewis
Gareth Roberts
Dafydd Ll. Williams
Hughie Williams

Y Cynghorydd Sirol – Anwen Davies

Nerys Williams - Clerc

**1. Ymddiheuriadau** –

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Nia M. Jones a Rhys Jones.

**2. Cofnodion cyfarfod 11 Mai, 2023**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams (Cadeirydd). Cadarnhawyd Cofnodion 11 Mai, 2023, yn gywir gan y Cynghorydd Tesni W. Jones ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

**3. Materion yn codi o'r cofnodion:-**

**Newid i Reolau Tai Teg** – Wedi cael ymateb gan Jini Gwyrfai yn cadarnhau y bydd yn cario ymlaen trwy ymgynghori gyda'r AS ac arweinydd Cyngor Gwynedd, Dyfrig Siencyn a thrafod gyda Tai Teg. Mae am adrodd yn ôl yn y dyfodol

**Tan y Coed, Boduan** – cŵyn ynglŷn â dau biler uchel wedi eu codi ym mynedfa Tan y Coed – cafwyd ymateb gan yr Adran briodol yn cadarnhau eu bod yn edrych i mewn i'n cŵyn dyddiedig 15-05-2023 ac fe'n hysbysir maes o law o ganlyniadau'r archwiliad hwnnw, ynghyd ag unrhyw weithredu pellach os penderfynir felly. Mae'r Uned Gorfodaeth Cynllunio yn delio ag ôl-groniad sylweddol o waith achos ar hyn o bryd, sydd yn deillio o bandemig Covid-19 ac hefyd materion capasiti staffio.

**Harddu Pentrefi ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023** – Adroddodd y Cynghorydd Tesni W. Jones ei bod wedi mynychu cyfarfod ynglŷn â harddu pentrefi Cyngor Cymuned Buan a bod cynlluniau ar y gweill i osod blodau, baneri a.y.b. o gwmpas yr ardal. Penderfynwyd cyfrannu £500 tuag at y costau.

**4. Polisi Iaith y Cyngor**

Penderfynwyd yn unfrydol derbyn y Polisi Iaith – bydd y Cadeirydd yn ei arwyddo yng nghyfarfod mis nesaf.

**Rheolau Sefydlog Newydd** – Penderfynwyd peidio â derbyn y rhain er mwyn i bawb gael amser i'w darllen ac i drafod yn y cyfarfod nesaf.

5. **Cais Cynllunio C23/0442/33/LL – Tir Fferm Madryn, Dinas, LL53 8UE – Adeiladu parlwr godro a gwaith cysylltiol.**

Trafodwyd y cais uchod a phenderfynwyd cefnogi y syniad 100% ond ein bod yn cwestiynnu lleoliad y parlwr godro. Penderfynwyd hefyd gofyn i'r Adran Gynllunio wneud yn siwr bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o'r cais.

*6.* **Datgan diddordeb.**

Datganodd y Cynghorydd Wynne Davies ddiddordeb yn y cais oherwydd cysylltiadau teuluol.

**7. Materion Ariannol**

Cysoniad banc o 4 Mai, 2023 i 3 Mehefin, 2023 wedi ei chael yn gywir yn y swm o £7333.48c.

Sylwyd bod ad-daliad TAW o £169.10 wedi ei dalu i mewn yn ystod y mis.

Cafodd y sieciau isod eu harwyddo gan y Cynghorydd Tesni Jones a'r Cynghorydd Catherine Hughes ar ddiwedd y cyfarfod;-

| | | |
|---|---|---|
| Ashley Hughes | £106.76 | Siec Rhif 200726 |
| Nerys Williams (Mis 3) | £111.79 | Siec Rhif 200727 |
| Cyllid a Thollau | £28.00 | Siec Rhif 200728 |
| Tu Hwnt i'r Afon Cyf | £20.00 | Siec Rhif 200729 |
| Pwyllgor Harddu Pentrefi | £500.00 | Siec Rhif 200730 |

**8. Materion eraill.**

Cofnodwyd bod **Twnti** wedi ail agor a bod y rheolwyr newydd yn fodlon i'r Cyngor gyfarfod yno ar yr un telerau ag o'r blaen. Dymunwyd y gorau iddynt ar eu menter gan ddymuno pob llwyddiant i'r dyfodol.

Trafodwyd bod **Lôn Refail i Tyddyn Cae** yn ddifrifol o ddrwg er ei bod wedi cael ei thrwsio yn ddiweddar. Penderfynwyd anfon at yr Adran Priffyrdd unwaith eto yn gofyn iddynt ail ymweld â'r ffordd.

Cafwyd cŵyn bod **tractorau a pheiriannau fferm** yn gor-yrru drwy Bentref Rhydyclafdy a bod pryder yn codi i ddiogelwch plant yr ardal. Cytunodd y Cynghorydd Anwen Davies gysylltu â'r Heddlu i drafod y mater.

**Cynlluniau Hyfforddi** – Adroddodd y Cynghorydd Hughie Williams ei bod yn ofynnol i ni fel Cyngor Cymuned fynychu cyfarfodydd hyfforddi – addawodd y buasai ef yn rhoi rhaglen yn ei lle.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 p.m.

9**. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf -**

Nos Iau, 13 Gorffennaf 2023 am 7.30 p.m. yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy.